



**Coleg Gŵyr Abertawe**  
**Gower College Swansea**

## **POLISI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD**

<b>Cyhoeddwyd</b>	<b>Chwefror 2022</b>
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	<b>Chwefror 2023</b>
<b>Awdur:</b>	<b>Mark Jones, Pennaeth</b>
<b>Lleoliad y Polisi:</b>	<b>Intranet/Policies &amp; Procedures/Health &amp; Safety</b>
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	<b>Tim Rheoli'r Coleg</b>

## **POLISI IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD**

### **1. POLISI**

- a) Fel busnes, mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ymrwymo i gyflawni safonau uchel o ran rheoli iechyd, diogelwch a'r amgylchedd ym mhob un o'n hymrwymiadau coleg. Rydym yn cydnabod, os na chânt eu datrys yn gywir y gallai nifer o weithgareddau yr ydym yn ymgymryd â hwy gynnwys risgiau i iechyd a diogelwch ein gweithwyr, ein dysgwyr ac eraill, ynghyd â'r risg o ddifrodi neu golli offer, eiddo a niwed i'r amgylchedd.
- b) Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â Deddfau a rheoliadau lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, ar draws ein cyfleusterau coleg, yr ydym yn gweithredu ynddynt ac i gymryd pob cam rhesymol ymarferol i atal, rheoli a lleihau risgiau o'r fath a'u heffeithiau posibl. Felly, rwy'n cymeradwyo'r amcanion a nodir isod a'r gweithdrefnau ar gyfer eu gweithredu.

### **2. AMCANION**

- a) Cydymffurfio â'r holl ofynion ar gyfer lechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Diogelu'r Amgylchedd gan gynnwys yr holl ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol, gan gynnwys bodloni safonau gofynnol y Ddraig Werdd (Cymru) ar gyfer rheoli'r amgylchedd.
- b) Llunio a chynnal cynlluniau Amgylcheddol ac lechyd a Diogelwch integredig sy'n diogelu ein gweithwyr, ein dysgwyr ac eraill sy'n cael eu heffeithio gan ein gweithgareddau, yn diogelu'r amgylchedd ac yn hyrwyddo Cynaliadwyedd. Ar hyn o bryd wrth gwrs, mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud yn benodol â'r heriau ychwanegol a grëwyd gan y Coronafeirws.
- c) Lleihau digwyddiadau a'u heffaith, gan gynnwys costau, sy'n ymwneud â'n gweithwyr, ein hymwelwyr, ein contractwyr, ein hoffer, ein heiddo a'n hasedau cwmni, yn enwedig:
  - Damweiniau amser coll
  - Damweiniau adroddadwy
  - Achosion salwch sy'n gysylltiedig â gwaith
  - Diwrnodau a gollwyd oherwydd damweiniau a salwch cysylltiedig â gwaith
  - Difrod i eiddo
  - Difrod i offer
  - Difrod i gerbydau
  - Difrod i gerbydau
- d) Creu dyfodol mwy Cynaliadwy drwy leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd yn enwedig o ran:
  - Defnyddio dŵr
  - Allyriadau carbon drwy ein targedau defnyddio ynni
  - Defnyddio tanwydd mewn gweithgareddau cludo
  - Amddiffyn adnoddau naturiol trwy leihau gwastraff yn effeithiol ac arferion ailgylchu/ailddefnyddio gwastraff
  - Gwella Bioamrywiaeth ar draws safleoedd y Coleg
- e) Gweithio tuag at ddod yn Goleg carbon-niwtral, trwy weithio gyda rhanddeiliaid ar fap trywydd realistig, gan gofleidio blaenoriaethau economi gylchol.
- f) Hyfforddi gweithwyr yn ddigonol, yn ôl gofynion y rôl, ynghylch arferion gwaith lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd a phynciau cysylltiedig.

- g) Ceisio adnabod, dileu, lleihau neu reoli'n barhaus ac yn gynyddol peryglon sy'n peri risg i weithwyr, dysgwyr a phobl eraill ac sydd â'r potensial i ddifrodi eiddo neu asedau, gan arwain at golli offer, effeithio ar yr amgylchedd a chyfrannu at ddyfodol mwyCynaliadwy.
- h) Sicrhau diwylliant gwaith lle mae materion diogelwch, iechyd a'r amgylchedd yn cael ystyriaeth briodol yn enwedig wrth gynllunio datblygiadau newydd, prosesau, systemau neu waith ac wrth weithgynhyrchu neu brynu offer a chyfarpar newydd.
- i) Sicrhau bod contractwyr sy'n gwneud gwaith ar gyfer y cwmni neu ar ei ran, yn cydymffurfio â safonau diogelwch, iechyd ac amgylcheddol y Coleg.

### 3. CYFRIFOLDEBAU A'R SEFYDLIAD

- a) Er bod gan yr holl staff a myfyrwyr ryw lefel o gyfrifoldeb ar draws y meysydd hyn, rheolwyr y Coleg sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod materion iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n iawn ar draws gweithgareddau perthnasol y Coleg.
- b) Mae Arweinwyr Campws, y Deoniaid, y Rheolwyr Meysydd Dysgu a'r holl arweinwyr addysgu neu ddatblygu busnes perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau a systemau diogelwch ac amgylcheddol y Coleg yn cael eu cymhwyso'n llawn a bod yr amgylchedd gwaith yn ddiogel i bobl a gwarchod yr amgylchedd ar yr un pryd.
- c) Mae Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Coleg yn gyfrifol am gynhyrchu a chynnal polisiau a gweithdrefnau sy'n cefnogi'r polisi hwn, am gynorthwyo rheolwyr gweithredol i gyflawni'r meini prawf hyn, ac am fonitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth.
- d) Rhaid i weithwyr a dysgwyr gymryd pob gofal rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt a gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r amgylchedd. Wrth wneud hynny, rhaid i weithwyr cyflogedig dynnu sylw rheolwyr y Coleg at unrhyw arferion neu amodau anniogel a allai effeithio ar ddiogelwch pobl neu'r amgylchedd.
- e) Rhaid i weithwyr a dysgwyr ddefnyddio dyfeisiau neu offer diogelwch perthnasol a ddarperir ac ni ddylent ymyrryd â neu gamddefnyddio unrhyw beth a ddarperir er budd yr amgylchedd neu iechyd a diogelwch. Rhaid iddynt ddwyn i sylw eu rheolwr unrhyw fater a allai beri risg i iechyd a diogelwch neu sy'n effeithio ar yr amgylchedd.
- f) Mae gweithwyr a dysgwyr yn gyfrifol am wrando a dilyn y cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan staff.

### 4. HYRWYDDO'R POLISI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD

- a) Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn hyrwyddo'r Polisi Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd i staff a rhanddeiliaid drwy wefan y coleg a'r fewnrwyd. Bydd y coleg hefyd yn hyrwyddo'r polisi ar gyfer prentisiaethau trwy lawlyfrau Dysgwyr a Chyflogwyr.
- b) Rhaid i bob aelod o staff gynnal eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch ac amgylchedd.
- c) Rheolwyr sy'n gyfrifol am ddiweddarau asesiadau risg eu meysydd nhw a disgwylir iddynt eu storio yn **Q:\Health & Safety All Staff\Departments.** Rhaid iddynt hefyd hybu iechyd a diogelwch gyda'u timau staff, dysgwyr a rhanddeiliaid gan gynnwys cyflogwyr, lle bo'n berthnasol.


## 5. YMRWYMO I'R POLISI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD

- a) Fel coleg, rhaid i bob aelod o staff weithredu ein polisi iechyd, diogelwch ac amgylchedd ac arferion gweithio diogel. Gellir dod o hyd i arferion gweithio diogel yn ein hasesiadau risg.
- b) Ar gyfer prentisiaethau a chyrsgiau lle bydd gofyn i fyfyrwyr fynd ar leoliad gwaith, tiwtoriaid ac aseswyr sy'n gyfrifol am gwblhau arfarniad Iechyd a Diogelwch a monitro'r lleoliadau gwaith hynny. Gwneir hyn drwy weithredu prosesau dysgu seiliedig ar waith (DSW) cymeradwy. Rheolwyr sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rhain yn eu lle ac am adrodd unrhyw wybodaeth amdanynt mewn cyfarfodydd DSW misol.
- c) Mae ymrwymiad i faterion Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn cael ei drafod gyda'n cyflogwyr cyn dechrau'r brentisiaeth fel rhan o'n proses arfarnu a monitro lleoliadau gwaith, ac mae gennym waharddiadau (o ran lleoliadau) a chynlluniau gweithredu ar waith cyn lleoli prentisiaid.
- d) Sicrheir ymrwymiad y Cyflogwr, y Prentis a'r Coleg/darparwr hyfforddiant i gynnal amgylchedd iach a diogel i brentisiaid drwy'r Datganiad Ymrwymiad neu'r Cytundeb Prentisiaeth, a gwneir hyn cyn i'r brentisiaeth gychwyn.
- e) Mae hyn yn cynnwys adrodd am bryderon iechyd a diogelwch, damweiniau, damweiniau a fu bron â digwydd a digwyddiadau RIDDOR i diwtoriaid/aseswyr neu staff cymorth. Byddant hwy yn cyfeirio'r mater at yr Arweinydd Diogelwch Dynodedig a'r Cynghorydd Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd ar gyfer Prentisiaethau Dysgu Seiliedig ar Waith, er mwyn ymchwilio i'r mater ymhellach.
- f) Bydd gweithdrefnau ymchwilio i ddamweiniau yn cael eu gweithredu, gan gynnwys uwchgyfeirio adroddiadau i Asiantaeth Ariannu Sgiliau Lloegr, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ôl yr angen. Gall hyn arwain at ail-werthuso lleoliadau cyflogwyr a stopio myfyrwyr rhag mynychu'r lleoliad hwnnw, os bernir ei fod yn annogel.

## 6. HYFFORDDIANT I STAFF FEL Y GALLANT WEITHREDU'R POLISI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD

- a. Mae staff yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch fel rhan o'r broses sefydlu a DPP.
- b. Rhaid i Aseswyr/Tiwtoriaid a staff sy'n ymgymryd ag Arfarniadau neu brosesau monitro mewn perthynas â Lleoliadau Prentisiaethau Iechyd a Diogelwch gwblhau hyfforddiant mewnol. Gellir cyrchu cymorth ac adnoddau ar gyfer hyn trwy sianel Diweddariadau DSW a'r Tîm Iechyd a Diogelwch.

**Mark Jones**



**Pennaeth**

**Chwefror 2022**

